# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2017

Amser: 10.00 - 16.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4334

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Alun Cairns AS, Secretary of State for Wales<br>Geth Williams, Wales Office<br>Michael Dynan-Oakley, Wales Office<br>Sophie Traherne, Wales Office<br>Philip Rycroft, Department for Exiting the European Union |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Llais Cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 12

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)119 - Rheoliadau Ad-dalu Benthyciadau i Fyfyrwyr a Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig (Diwygio) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad

Cytunodd y Pwyllgor i fynd ar drywydd y ffaith nad yw offerynnau cyfansawdd ond yn cael eu creu yn Saesneg.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno. Cytunoddd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i gyfleu'r pwyntiau a nodwyd yn sgil y DU yn gadael yr UE.

## 6 Papurau i’w nodi

### 6.1 Papurau i'w nodi – Gadael yr UE

### 6.2 Papurau i'w nodi – Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

### 6.3 Papurau i'w nodi – Deddf Cymru 2017

### 6.4 Papurau i'w nodi – Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru

### 6.5 Papurau i’w nodi – eraill

Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

### 7.1 Papur i'w nodi – Llythyr gan y Llywydd

Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd i ymateb iddo.

### 7.2 Llais Cryfach i Gymru: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### 7.3 Dull o gynnal gwaith craffu ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

## 8 Llais Cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 13

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Philip Rycroft CB, Ail Ysgrifennydd Parhaol: Yr Adran ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

### 9.1 Llais Cryfach i Gymru – trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan Philip Rycroft.

### 9.2 Deddf Dehongli i Gymru

Trafododd y Pwyllgor y nodyn cyfreithiol ynghylch Deddf Dehongli i Gymru, ac fe'i nodwyd.

### 9.3 Y Flaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith, ac fe'i nodwyd.